



CWTSH MYRDDIN

Rhifyn – 22.05.2017

Taith i ymweld ag Eglwys y Tabernacl a Chapel y Priordy



Bore Gwener yr 19eg o Fai aeth blwyddyn 7 ar daith Astudiaethau Crefyddol i ymweld ag Eglwys y Tabernacl a Chapel y Priordy gan eu bod yn astudio defodau derbyn fel rhan o'u hastudiaethau y tymor hwn. Cawsom groeso cynnes gan y Parchedig Mr Peter Cutts yn Eglwys y Bedyddwyr, Y Tabernacl a eglurodd pam mai ond pobl ifanc ac oedolion mae'r Eglwys yn ei fedyddio. Cafodd y disgyblion gyfle i esgus gweld Crediniwr yn cael ei fedyddio yn y fedyddfa sef y pwll a ddefnyddir i drochi credinwyr. Roedd yn brofiad newydd i'r mwyafrif o'r disgyblion i weld y fedyddfa. I gloi cafodd y disgyblion gyfle i holi

cwestiynau cyn mynd i Gapel y Priordy.

Yng nghapel Y Priordy roedd y Parchedig Beti Wyn James yn esbonio bedydd baban. Cawsant gyfle i ail greu gwasanaeth bedydd gyda disgyblion blwyddyn 7 yn cymryd rhan rôl rhieni a rhieni bedydd. Eglurodd nad oedd bedyddfaen i'w gael yn y capel ar gyfer bedydd ond bod bowlen yn cael ei defnyddio i ddal y dŵr. Ar ddiwedd y gwasanaeth cafodd y disgyblion gyfle i holi cwestiynau cyn dychwelyd yn nôl i'r ysgol.

Hoffem ar ran yr Adran Astudiaethau Crefyddol ddiolch yn fawr iawn i'r Parchedig Mr Peter Cutts a'r Parchedig Beti Wyn James am y cyfle i ymweld â'r Eglwysi ac am eu hamser gwerthfawr a chyflwyniadau diddorol.

Gymdeithas Fiolegol Frenhinol

Llongyfarchiadau i Beca a Rosa o flwyddyn 13 am eu llwyddiant yng nghwis Olympiad Biolegol y Gymdeithas Fiolegol Frenhinol yn ddiweddar. Llwyddodd Beca i ennill medal efydd, tra sicrhodd Rosa glod teilyngdod uchel yn y cwis rhyngweithiol. Dymuniadau gorau i'r ddwy wrth iddynt ddechrau ar eu harholiadau Safon uwch yn ddiweddarach y mis hwn.



CogUrdd

Llongyfarchiadau i Millie Hughes Butterfield o flwyddyn 10 am ennill y gystadleuaeth Cogurdd o dan 19oed. Daeth Cerys Megan Thomas yn ail. Pob lwc Millie ym Mhen y bont ar Ogwr.



Canlyniadau Celf, Dylunio a Thechnoleg Eisteddfod Urdd 2017

Llongyfarchiadau i Ifan Gwynedd am ddod yn 3ydd yn y gystadleuaeth Celf, Dylunio a Thechnoleg Eisteddfod Urdd 2017 dan 19 oed.

Bore Proffiliau

Ar Fai yr 8fed, cafwyd bore dathlu arbennig iawn yn Ysgol Bro Myrddin. Gan fod arholiadau allanol blwyddyn 11 ar y gorwel cafwyd bore arbennig er mwyn cyflwyno proffiliau i'r dysgwyr. Yn dilyn croeso a gair byr gan y pennaeth Dr Llinos Jones, cafwyd areithiau pwrpasol gan Emma Benge, Gyrfa Cymru a James Harper o'r Principality. Cafodd un disgybl o bob dosbarth cofrestru eu henwebu gan eu tiwtoriaid dosbarth am eu hymdrech yn ystod y flwyddyn gan dderbyn taleb neu anrheg yn rhodd gan y Principality. Cafwyd cyfle wedyn i bob disgybl i dderbyn proffiliau proffesiynol gan yr ysgol.

I ddilyn yn y prynhawn cafwyd blwyddyn 11 gyfle i ddathlu pum mlynedd o fywyd ysgol gyda bwffe amser cinio a chyfle i sgwrsio, arwyddo a dathlu gydag amrywiaeth o weithgareddau yn y prynhawn. Diolch i bawb am y trefniadau.

Yn y llun gweler Catrin Lewis, Elin Jones, Carian Jones, Angharad Beach, Sioned Tatersall, Owain Phillips a James Harper, Principality.



Mabolgampau Bro Myrddin

Bu'r ysgol yn ffodus iawn i gael diwrnod sych a braf iawn ar gyfer y mabolgampau eleni. Roedd cystadlu brwd rhwng unigolion a rhwng y llysoedd gyda nifer o berfformiadau unigol disglair. Llwydiarth ddaeth yn fuddugol ar y diwrnod gyda sgôr o 757, Hergest yn ail gyda 668 o bwyntiau, Peniarth yn 3ydd gyda 668 o bwyntiau a Hengwrt yn 4ydd gyda 643.

Yn dilyn y drefn flynyddol rhoddwyd tlysau i'r pencampwyr o blith y merched a'r bechgyn a enillodd fwyaf o bwyntiau yn y cystadlaethau. Yr enillwyr unigol eleni oedd:-

Bl 7 Merched- Scarlett Mackenzie-Jones; Bechgyn – Frank Morgan

Bl 8 Merched- Betsan Thomas; Bechgyn –Liam Edwards

Bl 9 Merched- Hanna Lewis; Bechgyn – Ryan Thomas

Bl 10 Merched- Eva Edwards; Bechgyn - Dylan Richards



Arloesi mewn Dylunio a Thechnoleg

Llongyfarchiadau i Carwyn Bebb a Will Garrad o'r chweched dosbarth am gael eu henwebu am wobwr arloesedd CBAC mewn Dylunio a Thechnoleg.

Os yn llwyddiannus mi fydd y cynnyrch yn cael eu harddangos mewn arddangosfa yng Nghaerdydd yn hwyrach yn y flwyddyn. Da iawn chi.



Cwpan Rygbi Rhanbarth Cymru

Llongyfarchiadau i dîm Rygbi Ysgol Bro Myrddin ar ennill cwpan Rygbi Rhanbarth Cymru yn erbyn Ysgol Treorci o 30-17. Diwedd arbennig i'r tymor!



Cystadleuaeth Peirianeg

Yn ddiweddar fe fuodd criw o'r ysgol yn llwyddiannus yng nghystadleuaeth genedlaethol peirianeg yr EESW. Llwyddodd y disgyblion, sef Rhys Evans, Lowri Mathias, Rebecca Walters, Sam Silverthorne, Mared Owen a Sam Reynolds o flwyddyn 12, gael eu dewis fel un o'r timau buddugol i gynrychioli Cymru yn rownd Brydeinig y cystadleuaeth a fydd yn cael ei gynnal fis Mawrth nesaf ym Mirmingham.